Y GRAWYS 1

GENESIS 2:15-17, 3:1-7; SALM 32;
RHUFEINIAID 5:12-19; MATHEW 4:1-11

● **Gweddi agoriadol**

Dduw gogoniant a gras,
derbyn offrwm ein moliant, a'n gweddïau.
Derbyn offrwm ein bywydau, a'r caneuon a ganwn,
Dduw gogoniant a gras.

● **Moliant**

Mae dy air yn datgelu gwirionedd syml i ni,
i bechod ddod i'n byd
drwy ffolineb dynol
a ninnau'n credu y gallem fod fel ti,
a gwenwyno hanes
gydag eiddigedd, hunanoldeb a thrachwant.
Ac eto, fedr pechod, sydd â gafael mor gryf arnom,
ddim goddef calon a gyffyrddwyd
gan dy ras drwy Iesu Grist,
na dygymod â dŵr bywiol
yn llifo i mewn i galonnau ac eneidiau.

Mae dy air yn datgelu gwirionedd syml i ni,
fod pechod wedi'i orchfygu
ac y gallwn fod y bobl
y bwriadwyd wastad i ni fod,
trwy dy ras yn Iesu Grist.

● **Cyffes**

Iesu, Fab Duw,
trugarha wrthym;
maddau wendid ein ffydd.

Iesu, Dywysog Tangnefedd,
trugarha wrthym;
maddau'r dicter a achoswyd gennym.

Iesu, Fugail Da,
trugarha wrthym;
maddau ein bywyd hunanol.

Iesu, Fywyd a Gwirionedd,
trugarha wrthym;
adfer ynom y cariad oedd gennym.

● **Diolch**

Mae'r byd hwn yn ein temtio
i gredu'r doethineb
sy'n deillio yn y meddwl dynol,
i beidio ymddiried mewn dim arall.
Ond cawsom gip ar y gwirionedd
a ddatgelwyd yng ngeiriau'r ysgrythur
ac fe addolwn ni yr Arglwydd ein Duw
a'i wasanaethu ef yn unig!

Mae'r byd hwn yn ein temtio i gredu
bod rheolaeth gennym ar ein tynged
ac nad oes angen y dwyfol arnom.
Ond clywsom gyffyrddiad Crist
ar ein calonnau,
ac fe addolwn yr Arglwydd ein Duw
a'i wasanaethu ef yn unig!